

# Rhestr wirio adfer

ar gyfer adeiladau'r Cyngor



Cyngor **Sir Gâr**  
**Carmarthenshire**  
County Council



Bwriedir i'r rhestr hon fod yn ganllaw cyffredinol i faterion y mae angen eu hystyried wrth agor adeilad neu ddwysáu'r defnydd ohono.

Ar gyfer Adeiladau Gweinyddol a Depos sydd wedi aros ar agor yn ystod y Pandemig, bydd yr Is-adran Eiddo eisoes wedi rhoi trefniadau addas ar waith ar gyfer y lefel bresennol o feddiannaeth a dylid darllen y rhestr wirio hon ar y cyd â Chanllawiau Cyngor Sir Caerfyrddin ar Gadw Pellter Cymdeithasol mewn Swyddfeydd a Depos.

Mae angen ystyried yr eitemau a restrir isod fel rhan o unrhyw achos busnes i ddwysáu'r defnydd o adeilad neu i agor adeilad sydd wedi bod ar gau. Cysylltwch â'r Is-adrannau Eiddo neu Reoli Pobl i gael canllawiau neu gyngor pellach.



## Materion Cydymffurfiaeth Eiddo

- Adolygwch y trefniadau Diogelwch Tân - profi larymau tân / argaeledd wardeiniaid tân ac ati - gwiriwch gyda'r Tîm Cydymffurfiaeth Eiddo
- Gwiriadau Legionella – a yw'r adeilad wedi cael ei fflysio, pan oedd yn wag - efallai y bydd angen fflysio'r systemau dŵr cyn ei agor - gwiriwch gyda'r Tîm Cydymffurfiaeth Eiddo
- Sicrhewch fod offer a pheiriannau wedi cael eu gwasanaethu a bod gwiriadau diogelwch wedi'u cynnal arnynt cyn ailagor

## Gwiriadau o flaen llaw gyda gweithwyr

- Dylid atgoffa gweithwyr i ddilyn canllawiau hunanynysu'r Llywodraeth os ydynt yn arddangos symptomau Covid
- Dylid cynghori gweithwyr i weithio gartref os yn bosibl neu, os yw'n hanfodol eu bod yn mynd i'r swyddfa, i leihau nifer y diwrnodau y maent mewn un o adeiladau'r Cyngor
- Cynghorwch weithwyr i ddewis dull o deithio i'r gwaith sy'n cadw pellter cymdeithasol, lle bo'n bosibl
- Sicrhewch fod y llythyr gweithiwr hanfodol wedi'i anfon at bob gweithiwr allweddol
- Dylid atgoffa gweithwyr i gario'r llythyr gweithiwr hanfodol pan fyddant yn teithio i/o'r gwaith gyda'u cerdyn adnabod (ID) staff
- Dylai'r holl staff gadarnhau eu bod wedi darllen y Canllawiau ar Gadw Pellter Cymdeithasol cyn defnyddio adeiladau'r Cyngor

## Trefniadau cyffredinol

- Ystyriwch gael staff i ddechrau a gorffen ar amserau gwahanol er mwyn osgoi tagfeydd ar adegau prysur, lle bo'n bosibl a chan ymgynghori â'r staff
- Ystyriwch oriau gweithredol yr adeilad a chyfathrebu hyn â'r staff ac ymwelwyr
- Canslwch bob ymwelydd, lle bo hynny'n bosibl, neu gadw nifer yr ymwelwyr mor isel â phosibl
- Hysbyswch bawb y dylai cyfarfodydd wyneb yn wyneb ddigwydd dim ond lle mae hynny'n gwbl angenrheidiol a chyda phersonél hanfodol yn unig
- Adolygwch gynllun desgiau ystafelloedd cyfarfod i gadw 2 fetr o bellter cymdeithasol
- Trefnwch fod pobl yn cymryd egwyliau ac amserau cinio ar amserau gwahanol er mwyn lleihau rhyngweithio cymdeithasol
- Ystyriwch drefniadau diogelwch i atal mynediad anawdurdodedig

## Arwyddion

- Gosodwch arwyddion cadw pellter cymdeithasol wrth fynedfeydd, allanfeydd a thrwy bob rhan o'r adeilad
- Gosodwch farciau llawr i gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr wrth ddrysau mynedfeydd
- Ystyriwch symud neu analluogi systemau mynediad sy'n gofyn am gyswllt croen (e.e. bysellbadiau)

## Glanhau a Hylendid

- A oes trefniadau wedi'u rhoi ar waith i fynd ati'n rheolaidd i ddiheintio dolenni drysau mynedfeydd/allanfeydd a mannau a gaiff eu cyffwrdd yn aml drwy bob rhan o'r adeilad?
- Sicrhewch fod digon o staff ar gael ar gyfer y drefn lanhau a nodwyd - cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Glanhau i sicrhau bod modd rhoi'r ddarpariaeth ar waith cyn ymrwymo i ddyddiad agor
- Gosodwch fannau golchi dwylo / diheintyddion ychwanegol wrth bob mynedfa ac allanfa
- Gosodwch arwyddion "Sut i olchi dwylo" wrth bob sinc a man golchi dwylo
- Dylai offer a rennir gael eu diheintio ar ôl pob defnyddiwr – darperir diheintyddion a deunyddiau glanhau
- Dylid mynd ati bob dydd i lanhau pob arwynebydd sy'n cael ei ddefnyddio i sicrhau bod heintiau'n cael eu cadw dan reolaeth
- Rhowch wybod i lanhawyr am gynlluniau newydd a thrafod y trefniadau glanhau diwygiedig gyda rheolwyr glanhau
- Sicrhewch fod trefniadau golchi dwylo addas a digonol ar waith gan ychwanegu atynt, lle bo angen

## Dosbarthu nwyddau

- Rhowch wybod i gyflenwyr am reolau cadw pellter cymdeithasol newydd y Cyngor ac unrhyw drefniadau dosbarthu diwygiedig
- Dylid gosod arwyddion cadw pellter cymdeithasol mewn mannau derbyn nwyddau (caiff gyrwyr dosbarthu eu hannog i aros yn y cerbyd)

## Cymorth Cyntaf

- Wedi cytuno ar adnoddau cymorth cyntaf digonol rhwng y partïon perthnasol ar y safle
- Cynlluniau argyfwng, gan gynnwys manylion cyswllt, wedi'u diweddarau
- Gwaith risg uchel wedi'i aildrefnu neu adnoddau cymorth cyntaf neu drawma cymwys ychwanegol wedi'u darparu
- Cyflenwadau digonol yn eu lle ym mhob man cymorth cyntaf

## Rheoli Tân

- Sicrhewch fod digon o Wardeiniaid Tân ar gyfer amseroedd agor adeiladau
- Adolygwch y trefniadau a'r arwyddion ar gyfer gwacáu'r adeilad mewn achos o dân
- Hysbyswch y staff a'r ymwelwyr am unrhyw drefniadau diwygiedig
- Sicrhewch fod y larymau tân yn cael eu profi'n rheolaidd

## Trefniadau Mewnol

- Adolygwch gynllun y desgiau i gadw 2 fetr o bellter cymdeithasol ac osgoi achosion lle byddai gweithwyr yn wynebu ei gilydd
- Dylid lledu llwybrau cerdded, lle bo modd, neu gyflwyno system unffordd
- Dylai offer a rennir mewn ystafelloedd cyfarfod gael eu diheintio ar ôl pob defnyddiwr - darperir diheintydd a deunyddiau glanhau
- Sicrhewch fod trefniadau ar waith i ddiheintio toiledau a sinciau yn rheolaidd
- Dylid cau bob yn ail wrinal a sinc i ffwrdd i sicrhau 2 fetr o bellter cymdeithasol
- Dylid gosod arwyddion "Sut i olchi dwylo" wrth bob sinc a man golchi dwylo
- Binau sbwriel addas a digonol ar gyfer tywelion dwylo a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE) tafladwy, a fydd yn cael eu symud a'u gwagio'n rheolaidd.
- Dylid adolygu capasiti ystafelloedd llai a chyflwyno trefniadau "un i mewn, un allan", lle bo angen
- Dylid nodi'r angen am sgriniau amddiffynnol ar gyfer derbynfeydd

## Mannau Gorffwys / Bwyta

- Arwyddion cadw pellter cymdeithasol wedi'u gosod wrth bob mynedfa i ffreuturau ac ystafelloedd gorffwys a phob allanfa
- Arwyddion cadw pellter cymdeithasol wedi'u gosod wrth bob peiriant gwerthu, oeryddion dŵr, a cheginau
- Sicrhewch fod dolenni drysau mynedfeydd/allanfeydd yn cael eu diheintio'n rheolaidd
- Dylai byrddau a chadeiriau gael eu diheintio'n rheolaidd
- Adolygwch gynllun byrddau ffreuturau ac ystafelloedd gorffwys i gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr
- Adolygwch fwydlenni er mwyn lleihau rhyngweithio cymdeithasol, e.e. cael gwared ar fariau salad, halen a phupur a rennir ac ati
- Dylid gwneud taliadau trwy ddulliau digyswllt lle bo'n bosibl.

# Rhagor o wybodaeth

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n ymwneud â Chadw Pellter Cymdeithasol ac Iechyd a Diogelwch. Mae dogfennau eraill i'w gweld isod.

Ewch i'r fewnwyd i weld y dogfennau hyn yn llawn.



AR GAEL AR Y FEWNRWYD I'W LAWRLWYTHO  
A'U HARGRAFFU - [CLICIWCH YMA](#)